# Y PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion (AC(2)-05-05)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 19 Mai 2005

### Amser y cyfarfod: 9.30am – 12.20pm

### Lleoliad y cyfarfod: Ystafelloedd Pwyllgora 3 & 4

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Y Rhondda |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Dwyrain De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Irene James | Islwyn |
| Denise Idris Jones | Conwy |
| Catherine Thomas | Llanelli |

#### Eraill yn Bresennol

| Enw | Yn cynrychioli | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|---|
| Elizabeth Raikes | ELWa-Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant | 2 |

| | | |
|---|---|---|
| Arwel Thomas | ELWa- Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant | 2 |
| Glyn Jones | Coleg Penfro | 2 |
| Kathryn Robson | Coleg Penfro | 2 |
| Jan Knight | Coleg Morgannwg | 2 |
| Julie Rees | Coleg Morgannwg | 2 |

### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Jeremy Colman | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| James Verity | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Jeremy Morgan | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Ian Summers | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Ian Gibson | Swyddog Cydymffurfiaeth Cynorthwyol |

### Gwasaneth Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Kathryn Jenkins | Clerc Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datganiadau o Fuddiant

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau’r Pwyllgor ac aelodau’r cyhoedd i’r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriad gan Carl Sargeant.

1.3 Mewn perthynas ag eitem 2, datganodd Denise Idris Jones fuddiant fel Aelod o Gyngor Prifysgol Cymru,Bangor.

## Eitem 2: Rheoli Absenoldeb oherwydd Salwch mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru

## Papur: AC(2) 05-05(p1)

2.1 Gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth gan Elizabeth Raikes, Prif Weithredwr ac Arwel Thomas, Pennaeth Swyddfa Cadeirydd a Phrif Weithredwr ELWa-Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant; Glyn Jones, Pennaeth a Kathryn Robson, Rheolwr Personnel Coleg Penfro; a Jan Knight, Pennaeth a Julie Rees, Rheolwr Personnel dros dro Coleg Morgannwg.

## Eitem 3: Protocol drafft ynghylch ymgynghori ar y gwaith fydd yn cael ei wneud ac ar drin a thrafod yr adroddiadau a gyhoeddir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Papur: AC(2) 05-05(p2)

3.1 Eglurodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ddiben a chynnwys y protocol drafft gan amlygu meysydd o ddiddordeb allweddol.

3.2 Ar ôl trafodaeth, nododd y Pwyllgor y protocol drafft.

## Pwyntiau Gweithredu

Cytunodd Y Pwyllgor y dylai’r cyfeiriadau at Archwilydd Cyffredinol Cymru yn y protocol fod yn ddiryw – Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru.

Cytunodd y Pwyllgor y dylid, yn ôl yr angen ac yn sgil profiad, adolygu’r protocol ar adeg briodol, – Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru.

## Eitem 4: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

## Papur: AC(2) 04-05(mins)

4.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 21 Ebrill 2005.